**ELL 13-02(cofnodion)**

**Cofnodion Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**Dyddiad:** 4 Gorffennaf 2002

**Amser:** 2.00pm

**Lleoliad:** Ystafelloedd Pwyllgora 3 & 4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Presenoldeb:**

**Aelodau**

| | | |
|---|---|---|
| Gareth Jones, Cadeirydd | Plaid Cymru | Conwy |
| Lorraine Barrett | Llafur | De Caerdydd a Phenarth |
| Peter Black | Democratiaid Rhyddfrydol | De Orllewin Cymru |
| Cynog Dafis | Plaid Cymru | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Jane Davidson, Gweinidog y Cynulliad | Llafur | Pontypridd |
| Janice Gregory | Llafur | Ogwr |
| Jonathan Morgan | Ceidwadwyr | Canol De Cymru |
| Alun Pugh, Dirprwy Weinidog | Llafur | Gorllewin Clwyd |
| Owen John Thomas | Plaid Cymru | Canol De Cymru |

**Ymddiheuriadau**

Mick Bates

Helen Mary Jones

Huw Lewis

**Dirprwyadau**

Peter Black ar ran Mick Bates

Owen John Thomas ar ran Helen Mary Jones

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**

| | |
|---|---|
| Chris Reading | Clerc |
| Holly Pembridge | Dirprwy Glerc |

**Swyddogion**

**Yn Bresennol:**

| | |
|---|---|
| Richard Davies | Cyfarwyddwr, Yr Adran Addysg a Hyfforddiant |
| Bob Waller | Is-adran Polisi ar Hyfforddiant, Sgiliau a Gyrfaoedd |
| Andrew Felton | Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol |

| | |
|---|---|
| | |

**Datganiadau o Fuddiant**

| | |
|---|---|
| Cynog Dafis | Athro Cofrestredig; mae ei wraig yn Athrawes Gofrestredig |
| Jane Davidson | Athrawes Gofrestredig; mae ei g^wr yn ddarlithydd coleg ac yn aelod o Bwyllgor Gwaith Cymdeithas Genedlaethol Athrawon Addysg Bellach ac Uwch |
| Gareth Jones | Athro Cofrestredig; Aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy; Aelod o Lys Prifysgol Cymru |
| Huw Lewis | Athro Cofrestredig |

| | |
|---|---|
| Mick Bates | Athro Cymwysedig; mae ei wraig yn Bennaeth Ysgol, yn Arolygydd Ysgolion, yn aelod o bwyllgorau ACCAC ac Estyn |
| Jonathan Morgan | Llywodraethwr Ysgol; Aelod o Lys Prifysgol Cymru |
| Lorraine Barrett | Llywodraethwr Ysgol |
| Helen Mary Jones | Athrawes Gofrestredig |
| Alun Pugh | Mae ei wraig yn ddarlithydd coleg |

**Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd**

0.1 Croesawodd y Cadeirydd y Pwyllgor ac aelodau o'r cyhoedd i'r cyfarfod a gofynnodd i'r aelodau a oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant newydd. Nododd Peter Black ei fod yn Aelod o Gyngor Sir a Dinas Abertawe.

0.2 Atgoffwyd aelodau ynghylch lansio'r adroddiad ar y cyd rhwng y Pwyllgor Diwylliant a Phwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ar yr adolygiad polisi o'r Iaith Gymraeg. Byddai'n cael ei gynnal ddydd Mawrth 9 Gorffennaf am 1.00pm yn Ystafell Bwyllgora Pedwar, Adeilad Bae Caerdydd.

0.3 Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor ei fod wedi mynychu seremoni wobrwyo Ffederasiwn Cyflogwyr ym maes Peirianneg yn Sain Tathan y diwrnod blaenorol.

**Eitem Un: Chwarae Teg**

***Papur : ELL 13-02(p.1)***

1.1Trwy gyfrwng Powerpoint cafwyd cyflwyniad gan y cyflwynwyr i dynnu sylw at y materion a godwyd yn y papur (ELL 13-02(p.1)). Gwahoddwyd yr aelodau gan y Cadeirydd i ofyn cwestiynau a chodwyd y materion canlynol mewn trafodaeth:

- Cyfeiriodd aelodau at honiad Chwarae Teg mai hi yw'r brif asiantaeth sy'n hyrwyddo gweithgareddau datblygiad economaidd i ferched yng Nghymru. Roedd gan aelodau ddiddordeb gwybod sut yr oedd gwaith Chwarae Teg yn arwain y ffordd yn y DU ac yn Ewrop, yn wir. Esboniodd y cyflwynwyr bod Comisiwn Cyfleoedd Cyfartal, yn wreiddiol, wedi ystyried model Chwarae Teg yn fodel y gellid ei gopïo ledled y DU. Yn wir, defnyddiwyd y teitl 'Chwarae Teg' mewn cynlluniau eraill ond nid oedd yr un sefydliad arall wedi gallu datblygu amrediad o bartneriaethau nag wedi gallu sicrhau nawdd cynaliadwy fel ag yr oedd Chwarae Teg. Roedd y corff wedi ceisio rhwydweithio'n briodol ac yn effeithiol gyda'r sector preifat, y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol; roedd y cyswllt gydag awdurdodau lleol hefyd yn gryf. Teimlwyd bod Chwarae Teg yn un o'r unig asiantaethau blaenllaw, a oedd yn hyrwyddo datblygiad economaidd merched yng Nghymru, gan weithredu mewn marchnad arbenigol yn hyrwyddo cydraddoldeb rhwng y rhywiau. Roedd yr adborth gan y partneriaethau wedi

bod yn gadarnhaol. Roedd cydweithwyr o fewn Chwarae Teg wedi paratoi deunyddiau ar gyfer swyddogion yn Llywodraeth y DU ac ar gyfer y Comisiwn Ewropeaidd ym Mrwsel – yn ôl yr adborth roedd y deunydd a gyflwynwyd wedi bod yn flaengar.

- Cafwyd peth trafodaeth ynghylch canlyniadau mesuradwy gweithgareddau Chwarae Teg mewn perthynas â datblygiad economaidd merched yng Nghymru. Esboniodd y cyflwynwyr eu bod yn gweld rôl Chwarae Teg fel hwylusydd/catalydd newid: roedd popeth a gyflawnwyd wedi ei gyflawni mewn partneriaeth â'i bartner sefydliadau. O ran effaith unigol, roedd rhai enghreifftiau cadarnhaol. Roedd Cynllun Menter Merched Cymru wedi cynorthwyo tua 200 o ferched. Roedd nifer o gyrsiau a oedd yn cefnogi'r syniad o ofal plant fel busnes wedi annog nifer o ferched i sefydlu busnesau gofal plant. O dan 'Prosiect Enghreifftiol Plant dan Bump', a oedd yn cefnogi sefydlu a chynnal grwpiau meithrin ar ddiwedd y nawdegau, gwelwyd sefydlu 30 o grwpiau meithrin, gyda 29 ohonynt yn dal i fodoli hyd heddiw. O ran effaith/polisi cyhoeddus, roedd aelodau wedi bod ynghlwm wrth bartneriaethau lleol a rhanbarthol ac yn rhan o bwyllgorau monitro nawdd Ewropeaidd. Gwelwyd hefyd hyrwyddo merched, yn gyffredinol, mewn bywyd cyhoeddus, a rhoddwyd sylw i swyddi nad oeddent yn draddodiadol megis peirianwyr, peilotiaid, athrawon coleg ayb. Roedd Prosiect Cydraddoldeb Mentrau Bach a Chanolig dan nawdd Awdurdod Datblygu Cymru a Chronfeydd Cymdeithasol Ewrop, gyda chefnogaeth sefydliadol gan Chwarae Teg ac ymgynghorwyr busnes (ar faterion yn ymwneud â rhywedd, hil ac anabledd) wedi ymweld â dros 900 o Fentrau Bach a Chanolig yng Nghymru. Roedd 700 o'r rhain, o ganlyniad, wedi datblygu Cynllun Gweithredu Amrywiaeth neu Gyfle Cyfartal. Fodd bynnag, roedd hyn wedi bod o fudd i'r holl weithwyr, nid dim ond y gweithwragedd.
- Ynghylch 'gweithgareddau rhanbarthol', roedd 'Cyfeiriadau Newydd' yn brosiect wedi ei anelu'n benodol at ferched oedd yn dychwelyd i fyd addysg, yn seiliedig ar hyfforddiant ar bendantrwydd a fyddai'n baratoad i gychwyn mewn Addysg Bellach ac Addysg Uwch. Gwelwyd effaith hyn yn ar lefel genedlaethol: bu 'Grwp Gweithredu Menter i Ferched Cymru-gyfan' yn cefnogi merched busnes i sefydlu eu busnesau eu hunain.

- Gofynnodd aelodau pa faterion yr hoffai Chwarae Teg i'r Pwyllgor eu hystyried o ran hyrwyddo datblygiad economaidd merched. Codwyd y materion canlynol:
- Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (HCA) – yr angen am thema Cyfle Cyfartal mewn hyfforddiant drwyddo draw
- Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABaCh) – yr angen am ddeunydd cyfredol, perthnasol
- Cyfleusterau gofal plant y gellir eu fforddio mewn sefydliadau Addysg Bellach/Addysg Uwch
- Nawdd ar gyfer/a mynediad rhwydd at hyfforddiant
- Stereoteipio: yn amlwg mewn ysgolion, pynciau 'merched' a 'bechgyn'
- Gofynnwyd i'r cyflwynwyr a oedd y cyfryngau yn rhagweithiol ac yn ymatebol wrth gyfleu negeseuon cadarnhaol ynghylch merched mewn gwaith. Dywedodd y cyflwynwyr fod y sylw a roddwyd gan y cyfryngau fel arfer yn weddol gadarnhaol. Fodd bynnag, roeddent wrth eu bodd yn cyhoeddi bod Chwarae Teg newydd benodi Rheolydd Marchnata/Cysylltiadau Cyhoeddus a Swyddog Cyfryngau.
- Cafwyd peth trafodaeth ynghylch stereoteipio a gyrfaoedd a gysylltir â dynion megis Technoleg Gwybodaeth (TG). Roedd Cyngor Cenedlaethol -ELWa wedi noddi Chwarae Teg i wahodd dau ddisgybl o'r chweched isaf o bob Awdurdod Addysg Lleol (AALl) yng Nghymru i fynychu digwyddiad ym Mhrifysgol Bangor. Pwrpas y digwyddiad oedd gofyn i ddisgyblion pa faterion yr oeddent hwy

wedi eu hwynebu yn eu haddysg hyn yn hyn, mewn perthynas â Chyfle Cyfartal. Dyma'r tro cyntaf i ddigwyddiad fel hwn gael ei gynnal. Byddid yn gofyn i ddisgyblion wedyn rannu'r hyn yr oeddent wedi ei ddysgu gyda disgyblion eraill a chyflwyno adborth i benaethiaid ei hysgolion. Hefyd yn ystod yr Wythnos Wyddoniaeth Genedlaethol, byddid yn annog merched ifanc i ystyried dilyn gyrfaoedd/ galwedigaethau ym meysydd gwyddoniaeth a pheirianneg, er enghraifft.

- Gofynnwyd i'r cyflwynwyr pa gamau y roedd Chwarae Teg wedi eu cymryd i sicrhau fod darpariaeth gofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg ar gael, yn enwedig mewn perthynas â gofal blynyddoedd cynnar. Roedd Clybiau Plant Cymru (clybiau gofal plant y tu allan i oriau ysgol) wedi gallu recriwtio nifer o staff Cymraeg eu hiaith a oedd yn gweithio ledled Cymru. Cynhaliodd Chwarae Teg archwiliadau ar ddarpariaeth gofal plant a ddarperid yn Gymraeg a Saesneg. Prif swyddogaeth Chwarae Teg oedd cefnogi gwaith y Partneriaethau Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant. Roedd Chwarae Teg wedi gweithio'n agos gyda Menter a Busnes a'r Mudiad Ysgolion Meithrin i sicrhau fod darpariaeth gofal plant/gofal blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg yn cael sylw blaenllaw.
- Tynnodd y Gweinidog sylw at rai materion pwysig, a cheir crynodeb ohonynt isod:
- Effeithiolrwydd ymgyrch ‘Babs the Builder’ i wrthweithio stereoteipio ym myd gwaith.
- Ystyried darpariaeth hyfforddiant ar gyfer gweithwyr rhan-amser: sut gallai Cyfrifon Dysgu Personol a Grant Dysgu newydd y Cynulliad helpu pobl a oedd yn ystyried cyfleoedd dysgu rhan-amser.
- Roedd cyfrifoldebau gofalu weithiau yn atal merched rhag manteisio ar gyfleoedd dysgu.
- Roedd rhai cyrsiau cyffrous ar gyfer merched sy'n dychwelyd i fyd addysg: dyfarnwyd y Wobr 'Beacon' i Goleg y Rhyl
- Yr angen i gyflogwyr, yn arbennig yn y sector preifat, i fod yn ymwybodol o gamau hyblyg i sicrhau cydbwysedd bywyd a gwaith.
- Roedd rhannu swydd athrawon yn gyfle gwych y dylid ei annog.
- ABaCh – cyn bo hir, byddai ACCAC yn cynghori y dylid gwneud y cwricwlwm hwn yn statudol.
- HCA – roedd yr amrediad o feysydd trawsbynciol o fewn HCA yn cael eu hystyried.

**Eitem Dau: Foyers**

***Papur: ELL 13-02(p.2)***

2.1 Cafwyd cyflwyniad byr gan y Gweinidog a thynnwyd sylw at y pwyntiau canlynol:

- Roedd Foyers yn fath pwysig o ddarpariaeth ar y cyd (tai ac addysg) ar gyfer pobl ifanc ag anghenion dwys.
- Roedd yn bleser gan y Gweinidog hysbysu'r Pwyllgor y byddai ELWa yn gwneud gwaith ymchwil a gwaith peilot ar Foyers.

2.2 Yna siaradodd Peter Black, AC, y Dirprwy Weinidog dros Dai, am ei bapur ELL 13-02(p.2) parthed ei adolygiad ar Foyers.

2.3 Yna gwahoddwyd aelodau gan y Cadeirydd i drafod yr adroddiad a chodwyd y materion canlynol:

- At ei gilydd, croesawyd yr adroddiad gan yr aelodau. Gofynnodd un aelod beth, ym marn y Dirprwy Weinidog, oedd yn unigryw am gysyniad Foyer mewn perthynas â modelau eraill o dai â chefnogaeth. Clywodd aelodau fod y syniad Foyer yn wahanol i fathau eraill o dai â chefnogaeth oherwydd bod rhaid i denantiaid ymgymryd â chyfleoedd dysgu a hyfforddiant. Roedd rhaid i Foyers

ffitio i fframwaith strategaeth oedd yn cynnwys llywodraeth leol/tai ac addysg/hyfforddiant. Nid oedd y cyfleoedd hyn yn unigryw i Foyers yn unig ond yn hytrach yn cael eu rhannu rhwng sefydliadau eraill oedd yn ymwneud â thai â chefnogaeth.

- Cafwyd peth trafodaeth ynghylch mesur canlyniadau. Teimlwyd ei bod yn anodd mesur canlyniadau yn y senario hwn. Fodd bynnag, mewn perthynas ag addysg a hyfforddiant, gellid cael credydau (am lwyddo). Awgrymwyd y gellid mesur amcanion trwy'r grant refeniw i dai â chefnogaeth. Roedd yn amlwg bod angen methodoleg – byddai prosiect ymchwil ELWa yn darparu arweiniad clir.
- Gofynnwyd i'r Dirprwy Weinidog a oedd anghydbwysedd rhwng y rhywiau yn y berthynas tenant/cleient yn Foyers ac a oedd cyfleusterau gofal plant ar gael yn y lleoliadau. Nododd y Dirprwy Weinidog fod cydbwysedd rhwng y rhywiau ar y cyfan ond nad oedd cyfleusterau gofal plant ar gael. Roedd tystiolaeth o wahanol lefelau o gefnogaeth a llwyddiant mewn gwahanol Foyers.
- Gofynnodd y Cadeirydd sut oedd cynllun Foyers yn berthnasol i brosiect Rhoi Cymunedau yn Gyntaf a dywedwyd nad oedd perthynas uniongyrchol rhyngddynt.
- O ran prosiect ymchwil Cyngor Cenedlaethol - ELWa, awgrymodd y Gweinidog y gallai'r Pwyllgor holi'r sefydliad ynghylch datblygiad y fenter hon pan y'i cyflwynid gerbron y Pwyllgor y tymor nesaf yn ei swyddogaeth fel Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad.

2.4 Cefnogodd y Pwyllgor yr argymhellion a bennwyd yn yr adroddiad.

**Eitem Tri: Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol**

***Papur: ELL 13-02(p.3)***

3.1 Trwy gyfrwng Powerpoint cafwyd cyflwyniad gan Alan Wells OBE a chyfeiriodd at yr adroddiad a ddosbarthwyd ynghynt i aelodau, ELL 13-02(p.3). Amlinellwyd natur y gwaith a wnaethpwyd gan yr Asiantaeth yn ei blwyddyn gyntaf gan Rhiannedd Pratley ac Alan Wells.

3.2 Codwyd y materion canlynol mewn trafodaeth:

- Dywedodd un aelod na fyddai pob athro/athrawes ysgol uwchradd gallu yn delio â sgiliau sylfaenol gwael ac y gallai cefnogaeth gan ddisgyblion h^yn fod yn hynod fuddiol. Cytunodd y cyflwynwyr bod hyn yn syniad cadarnhaol a bod rhaid mynd i'r afael â sgiliau sylfaenol gwael mewn modd creadigol/llawn dychymyg. Cafwyd nifer sylweddol o raglenni cyfoedion yng Nghymru ac roedd y rhaglen 'Dal-i-fyny' ar gyfer disgyblion Blwyddyn Saith wedi bod yn llwyddiannus dros ben.
- Mynegwyd peth pryder y gallai gwaith yr amrywiol asiantaethau sy'n ymwneud â'r sector addysg yng Nghymru gael ei ddyblygu. Dywedwyd wrth aelodau bod Grwp Llywio Strategaeth yn cynnwys cynrychiolwyr o gyrff megis CCAH, ELWa, Dysg Cymru ac AALl.
- Cyfeiriodd aelodau at arolygon ymwybyddiaeth yr Asiantaeth a gofynnwyd a oedd cynnydd wedi bod yn yr ymholiadau a wnaed/y nifer a fanteisiodd ers yr ymgyrchoedd hysbysebu. Clywodd y Pwyllgor y cafwyd ymateb sylweddol i'r ymgyrch ' Darllena gyda Fi'. Roedd 40% o rieni wedi mynd i'r afael â'u gofynion sgiliau eu hunain er mwyn helpu eu plant. Roedd lefel y recriwtio i ddosbarthiadau oedolion yn isel ond roedd yr Asiantaeth yn disgwyl cael gwybodaeth bellach gan ddarparwyr ôl-16 am nifer yr oedolion oedd wedi manteisio arnynt. Roedd yr Asiantaeth hefyd yn ystyried datblygu deunyddiau hunan-gymorth ar gyfer oedolion, tebyg i'r rhai a ddatblygwyd yng Ngweriniaeth Iwerddon.
- Gofynnodd un aelod sut a phryd y gellid gwerthuso cynnydd mewn sgiliau sylfaenol. Roedd y ffigurau llinell sylfaen ynghlwm wrth amserlen nod 2004. Byddai'r Asiantaeth yn cyflwyno adroddiad

ar y cynnydd o'i gymharu â'r llinell sylfaen yn 2004.

- Cafwyd peth trafodaeth ynghylch ymwybyddiaeth cyflogwyr, sgiliau sylfaenol a'r posibilrwydd o gynnwys rhaglenni gwella o fewn y gweithle. Roedd yr Asiantaeth wedi bod yn trafod yn gadarnhaol gyda Buddsoddwyr mewn Pobl. Roedd yn bwysig cydnabod y byddai'n rhaid i gyflogwyr gael mynediad at nawdd pe baent yn dymuno darparu hyfforddiant yn y gwaith. Gellid integreiddio rhaglenni gwella sgiliau sylfaenol i raglenni Technoleg Gwybodaeth (TG) a rhaglenni iechyd a diogelwch, gan y byddai hyn yn llai o stigma ar weithwyr sydd ag angen hyfforddiant mewn sgiliau sylfaenol. Teimlwyd y byddai sefydlu Addewid Cyflogwyr i Sgiliau Sylfaenol o fudd i godi ymwybyddiaeth.
- Tynnodd un aelod sylw at nodau uchelgeisiol yr Asiantaeth a gofynnodd a oedd yr Asiantaeth yn credu y gellid cyfiawnhau cael asiantaeth arbennig i ddelio â hyrwyddo gwella sgiliau sylfaenol. Teimlai'r cyflwynwyr mai swyddogaeth yr Asiantaeth oedd sicrhau bod cyrff megis ELWa, ACCAC ac AALl yn blaenoriaethu gwella sgiliau sylfaenol ac y byddent yn darparu cyngor a chefnogaeth arbenigol i sefydliadau oedd eu hangen.
- Dangoswyd peth diddordeb yn strwythur staffio a chyllideb flynyddol yr Asiantaeth. Hysbyswyd yr aelodau bod chwe aelod o staff datblygu ac un swyddog maes ad hoc wedi eu lleoli yng Nghymru. Roedd gan yr Asiantaeth ddirprwy gyfarwyddwr, rheolwr gweithredu a thri aelod o staff cefnogi datblygiad, ynghyd â thîm cyhoeddiadau a marchnata'r asiantaeth. O ran y gyllideb flynyddol, gwariwyd 6% o'r gyllideb yn y flwyddyn gyntaf ar orbenion a marchnata. Gwariwyd dros 93% ar ddysgu ac addysgu.
- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch nifer yr ymatebion i linell wybodaeth Learn Direct, dywedodd y cyflwynwyr wrth y Pwyllgor ei bod yn anodd darparu ffigurau gan nad oedd Learn Direct yn llinell recriwtio.
- Tynnodd y Gweinidog sylw at rai pwyntiau pwysig:
- Roedd Claus Mozer wedi cymeradwyo strategaeth Cymru o'r crud i'r bedd (dysgu gydol oes) o ran hyrwyddo sgiliau sylfaenol.
- Er mwyn symud tuag at economi hyfedr â chyflogau uwch, roedd rhaid mynd i'r afael â sgiliau sylfaenol.
- Roedd un o Awdurdod Lleol yng Nghymru yn debygol o bod y cyntaf yn y DU i dderbyn marciau ansawdd ar gyfer ei holl ysgolion. Bur debyg y byddai ail awdurdod lleol yng Nghymru yn llwyddo yn yr un modd cyn bo hir.
- Teimlai cyflwynwyr yn gryf bod angen athrawon wedi eu hyfforddi'n briodol i drosglwyddo'r addysgu rhwng sgiliau sylfaenol a sgiliau allweddol.

3.3 Diolchodd y Cadeirydd i'r cyflwynwyr am eu cyfraniad i'r cyfarfod.

**Eitem Pedwar: Cofnodion cyfarfod 26 Mehefin**

***Papur: ELL 12-02(cofnodion)***

4.1 Derbyniodd y Pwyllgor bod cofnodion 26 Mehefin yn gywir.

**Papur i'w nodi**

**Arolwg NIACE Dysgu Cymru ar Gyfranogiad Oedolion mewn Dysgu yng Nghymru 2002**

***Papur: ELL 13-02(p.4)***

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Gorffennaf 2002**